Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4111A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Crynodeb o'r adroddiad 4

Adroddiad manwl

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham – cwmpas yr archwiliad hwn 6

Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn 6

Strategaeth Ddigidol y Cyngor 7

Yr hyn a ganfuom: Ceir gwendidau yn null y Cyngor o ddatblygu a chyflawni ei strategaeth ddigidol 8

Atodiadau

Atodiad 1: cwestiynau allweddol a'r meini prawf archwilio 11

# Crynodeb o'r adroddiad

## Crynodeb o'r adroddiad

**Arddangosyn 1: crynodeb o'r adroddiad**

Mae'r arddangosyn isod yn crynhoi'r rheswm y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn, ein canfyddiadau allweddol a'n hargymhellion ar gyfer y Cyngor.

**Pam fod dull strategol o ymdrin â digidol yn bwysig**

1 Mae technoleg ddigidol yn allweddol i ddarparu ystod eang o wasanaethau cyngor mewn ffordd fwy darbodus, effeithlon ac effeithiol. Mae hefyd yn ffordd bwysig i gynghorau gyflawni eu hamcanion llesiant a mynd ar drywydd datblygu cynaliadwy.

2 Mae bod â dull strategol eglur o ymdrin â digidol yn gallu dwyn nifer o fanteision megis:

- sefydlu gweledigaeth gyffredin ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol a'r deilliannau bwriadedig i gymunedau lleol sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y Cyngor;
- helpu i sicrhau bod defnydd cynghorau o dechnoleg ddigidol yn cyd-fynd â'u hamcanion strategol allweddol a chynlluniau a strategaethau eraill a'i fod wedi'i oleuo gan ddealltwriaeth dda am dueddiadau yn awr ac yn y dyfodol;
- lleihau'r risg o ddyblygu o fewn cynghorau a chyda phartneriaid;
- ystyried yr adnoddau a ddarperir ar gyfer datblygiadau digidol dros y tymor byr, canolig a hwy gyda'i gilydd; a
- darparu fframwaith i'w ddefnyddio i fonitro cynnydd dros y tymor byr, canolig a hir.

**Ffocws ein harchwiliad**

3 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae dull strategol y Cyngor o ymdrin â digidol wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau'r Cyngor.

**Ein canfyddiadau allweddol**

4 Mae strategaeth ddigidol y Cyngor wedi'i goleuo gan ystod o ffynonellau tystiolaeth, ac mae wedi cael ei rhannu'n eang gyda swyddogion ac Aelodau ers ei chyhoeddi.

5 Ers cyhoeddi'r strategaeth ddigidol, mae'r Cyngor wedi rhoi strategaeth ymgysylltu ar waith i wella sut y mae'n ymgysylltu â thrigolion. Ond ni wnaeth y Cyngor ymgysylltu â thrigolion wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol. Mae hyn yn golygu bod risg bod y Cyngor yn datblygu dull strategol nad yw'n diwallu eu hanghenion.

6 Mae’r strategaeth yn cyd-fynd â strategaethau mewnol eraill a strategaethau partneriaid allanol. Mae’r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhai partneriaid allanol ond nid yw wedi adnabod nac ymgysylltu â’r holl bartneriaid allanol a allai gyfrannu at gyflawni’r strategaeth ddigidol ac nid yw wedi archwilio'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio a gweithio ar y cyd yn llawn.

7 Nid yw’r Cyngor wedi mynd ati’n llawn i gyfrifo cost ei strategaeth ddigidol nac ariannu gwaith i’w chyflawni ac nid oes ganddo drefniadau cryf i fesur ei strategaeth ddigidol dros y tymor byr, canolig a hir. Mae diffyg gwybodaeth o’r fath yn ei gwneud hi’n anodd i’r Cyngor fod wedi’i sicrhau y gellir cyflawni’r strategaeth ac y bydd yn dwyn gwerth am arian.

8 Dysgodd y Cyngor wersi o’i strategaeth ddigidol flaenorol ac effaith y pandemig. Mae ganddo hefyd drefniadau i ddysgu o’i ddull o ymdrin â digidol, ond nid yw’r rhain yn cael eu rhoi ar waith yn gyson.

**Ein hargymhellion i’r Cyngor**

**Ymgysylltu â thrigolion**

A1 I helpu i sicrhau bod ei ddull strategol o ymdrin â digidol yn diwallu anghenion ei gymunedau dylai’r Cyngor ymgysylltu ag amrywiaeth lawn ei boblogaeth wrth ddatblygu ei ddull strategol o ymdrin â digidol.

**Cydweithio gyda phartneriaid allanol**

A2 I gryfhau ei drefniadau i sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a darbodaeth trwy weithio mewn partneriaeth i gyflawni ei strategaeth ddigidol, dylai’r Cyngor:

- adnabod sefydliadau y mae angen iddo weithio gyda hwy;
- adnabod cyfleoedd i gydweithio; a
- datblygu trefniadau i asesu a monitro gwerth am arian unrhyw bartneriaethau y mae’n ymrwymo iddynt.

**Darparu adnoddau ar gyfer ei strategaeth ddigidol**

A3 I helpu i sicrhau y gellir cyflawni ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai’r Cyngor adnabod goblygiadau cyflawni’r strategaeth o ran adnoddau yn y tymor byr, canoli a hir ynghyd ag unrhyw arbedion bwriadedig.

**Monitro gwerth am arian a manteision**

A4 I wella dealltwriaeth am effaith ei strategaeth ddigidol, dylai’r Cyngor gryfhau trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso gwerth am arian ac effaith gweithgarwch digidol dros y tymor byr, canolig a hwy.

# Adroddiad manwl

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham — cwmpas yr archwiliad hwn

1 Fe wnaethom adolygu dull strategol y Cyngor o ymdrin â digidol, ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac i ba raddau y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

2 Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda sampl o Aelodau Cabinet ac uwch swyddogion. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i oleuo ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Fe wnaethom y gwaith hwn yn y cyfnod rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2023.

3 Aethom ati i ateb y cwestiwn, **'Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?'** Fe wnaethom hyn trwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A yw strategaeth ddigidol y Cyngor wedi'i goleuo gan ddealltwriaeth dda am dueddiadau yn awr ac yn y dyfodol?
- A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae'n dymuno ei gyflawni trwy ddefnyddio technoleg ddigidol?
- A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol?
- A yw'r Cyngor wedi darparu adnoddau ar gyfer cyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddwyn manteision hirdymor/ataliol?
- A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd?
- A yw'r Cyngor yn dysgu gwersi o'r ffordd y mae'n gweithio?

4 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r cwestiynau manwl yr aethom ati i'w hateb ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i lunio ein canfyddiadau.

## Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn

5 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

6 Roeddem yn ceisio:

- darparu sicrwydd y bydd strategaethau digidol cynghorau'n helpu i gyflawni amcanion llesiant mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau;

- darparu sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio eu strategaethau digidol;
- egluro sut y mae cynghorau'n defnyddio/cynllunio ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol i ddiwallu anghenion pobl a chyflawni deilliannau gwell; ac
- ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus trwy adnabod a rhannu enghreifftiau o arferion/dulliau nodedig lle y bo'n berthnasol.

# Strategaeth ddigidol y Cyngor

7 Mae'r Strategaeth TGCh a Digidol gyfredol yn rhedeg o 2020 tan 2023 ac mae i fod i ddod i ben ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023-24. Mae'r strategaeth yn darparu'r cyfeiriad a chynlluniau strategol lefel uchel ar gyfer yr ystod lawn o wasanaethau digidol a ddarperir yn ystod y cyfnod hwn.

# Yr hyn a ganfuom: Ceir gwendidau yn null y Cyngor o ddatblygu a chyflawni ei strategaeth ddigidol

## Mae strategaeth ddigidol y Cyngor wedi'i goleuo gan ystod o ffynonellau tystiolaeth, ond ni wnaeth ymgysylltu â thrigolion wrth ei datblygu

8 Mae strategaeth ddigidol y Cyngor wedi'i goleuo gan ystod o ffynonellau tystiolaeth mewnol. Cynhaliodd gyfres o weithdai a sesiynau rhyngweithiol gyda meysydd gwasanaeth a swyddogion arweiniol ac fe ailadroddodd y broses hon gydag Aelodau i benderfynu'n derfynol ar gyfeiriad a chynnwys y strategaeth. Cynhaliodd y Cyngor archwiliad digidol mewnol hefyd i ddeall sgiliau ac anghenion digidol swyddogion.

9 Fe wnaeth y Cyngor hefyd ddadansoddi sut yr oedd trigolion yn cael mynediad at wasanaethau ac yn cysylltu â'r Cyngor ar draws yr holl blatfformau a defnyddio'r data yma i oleuo'i gynlluniau i newid ystod a chapasiti'r gwasanaethau ar-lein sydd ar gael.

10 Mae'r strategaeth ddigidol yn amlinellu rhai o'r ffactorau allanol sy'n dylanwadu ar ei chyfeiriad, megis yr angen i wella cysylltedd band eang. Ond ni wnaeth y Cyngor ddarparu tystiolaeth o'r modd y gwnaeth partneriaid allanol oleuo'r strategaeth ddigidol na sut y defnyddiodd ddata a thystiolaeth allanol i oleuo ei strategaeth.

11 Mae'r Cyngor wedi sicrhau bod gweledigaeth ei strategaeth ddigidol yn cael ei deall yn eglur ac yn eang yn fewnol. Ers ei chyhoeddi, mae'r Cyngor wedi

parhau i ymgysylltu ag Aelodau a swyddogion. Mae'n rhedeg sesiynau gweithdy gyda meysydd gwasanaeth sy'n egluro sut y gall y strategaeth helpu gwasanaethau i adnabod a datblygu prosiectau digidol newydd a sut y mae'n cysylltu â strategaethau corfforaethol eraill.

12 Mae'r sesiynau hyn yn cael eu rhedeg gydag Aelodau hefyd ac mae'r Cyngor wedi sicrhau bod Aelodau a oedd newydd gael eu hethol i'r Cyngor yn 2022 wedi cael eu cynnwys yn y sesiynau hyn.

13 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am y ffactorau hirdymor a fydd yn effeithio ar ei strategaeth ddigidol ac mae eisoes wedi gweithredu i liniaru rhai o'r rhain. Mae'r strategaeth yn amlinellu cynlluniau buddsoddi i wella'i seilwaith digidol, sy'n dilyn ymlaen o weithgarwch a gyflawnwyd dan y strategaeth flaenorol.

14 Mae'r Strategaeth yn rhestru gweithgarwch arfaethedig gan gynnwys ateb y galw uwch ymhlith trigolion am wasanaethau ar-lein, dileu rhwystrau i hygyrchedd ar gyfer yr holl ddefnyddwyr digidol, a symud ei swyddogaeth gwasanaethau cwsmeriaid i ganolfan gyswllt yn y cwmwl fel enghreifftiau o weithgarwch a fydd yn diwallu anghenion trigolion yn y dyfodol.

15 Mae swyddogion yn y tîm digidol yn cwrdd â meysydd gwasanaeth yn fewnol i ddeall anghenion gwasanaethau o fewn y Cyngor yn y dyfodol. Maent hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allanol yn y sector cyhoeddus i ddeall datblygiadau mewn technoleg a datrysiadau a ddefnyddir mewn sefydliadau eraill.

16 Ni wnaeth y Cyngor ymgysylltu â thrigolion i oleuo datblygiad ei strategaeth ddigidol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd effaith cyfyngiadau symud COVID yn ystod y cyfnod pan oedd yn cael ei datblygu, a oedd yn golygu nad oedd rhai mathau o ymgysylltu'n cael eu caniatáu a bod y Cyngor wedi'i orfodi i weithredu gwasanaethau hanfodol yn unig, gydag amser swyddogion yn cael ei ddargyfeirio oddi wrth weithgarwch megis ymgysylltu.

17 Rydym hefyd yn deall, ers i'r strategaeth ddigidol gael ei chyhoeddi, bod y Cyngor wedi adolygu a diweddaru ei strategaeth gynnwys sy'n amlinellu dull arfaethedig y Cyngor yn y dyfodol ar gyfer ymgynghori, ymgysylltu a chydgynhyrchu, gan gynnwys cefnogi datblygiad cynlluniau strategol.

18 Fodd bynnag, trwy beidio ag ymgysylltu â thrigolion i gynhyrchu'r strategaeth ddigidol gyfredol, ceir risg y bydd y Cyngor yn datblygu dull strategol nad yw'n diwallu anghenion ei drigolion.

## Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cyd-fynd â strategaethau eraill, ond nid yw wedi archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio allanol yn llawn

19 Mae'r Cyngor wedi cysoni ei strategaeth ddigidol ag ystod o strategaethau mewnol eraill, gan gynnwys:

- Cynllun y Cyngor:
- Ffyrdd Modern o Weithio; a
- Strategaeth y Gweithlu

20 Mae'r strategaeth ddigidol yn nodi sut y bydd yn cyfrannu at nodau ac amcanion y strategaethau hyn ac yn ategu prosiectau penodol megis gwella gweithio hyblyg ac archwilio sgiliau digidol swyddogion.

21 Mae'r strategaeth hefyd yn nodi cysylltiadau a blaenoriaethau a rennir gyda strategaethau allanol gan gynnwys rhai Fforwm Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Cymru.

22 Fodd bynnag, nid oedd y Cyngor yn gallu darparu tystiolaeth ei fod wedi adnabod yr ystod lawn o bartneriaid allanol y gallai weithio gyda hwy i gyflawni ei strategaeth ddigidol.

23 Mae'r Cyngor wedi gwneud peth gwaith cydweithredol, fel a ddangoswyd yn ei adroddiad ar gynnydd erbyn diwedd ail flwyddyn y strategaeth ddigidol. Roedd hyn yn cynnwys:

- gweithio gyda phartneriaid busnes a Cyfoeth Naturiol Cymru i osod synwyryddion LoraWAN yng nghanol tref Wrecsam i fesur nifer yr ymwelwyr, lefelau traffig ac ansawdd aer; a
- gweithio gyda Cymunedau Digidol Cymru i ddarparu hyfforddiant digidol a chefnogi mynediad trigolion at wasanaethau ar-lein.

24 Fodd bynnag, nid oedd y Cyngor yn gallu darparu tystiolaeth ei fod yn mynd ati'n rheolaidd i adnabod ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio a gweithio cydgysylltiedig i gyflawni prosiectau digidol. Trwy beidio ag archwilio'r holl gyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, ceir risg na fydd y Cyngor yn adnabod cyfleoedd i wella gwerth am arian ac effaith ei ddull strategol o ymdrin â digidol. Roedd hefyd yn methu â darparu tystiolaeth o unrhyw adolygiad o'i drefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Mae monitro ac adolygu effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth yn rhan bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian.

## Nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro gwerth am arian prosiectau digidol a'i strategaeth ddigidol

25 Mae gan y Cyngor drefniadau i fonitro ei weithgarwch digidol. Mae prosiectau digidol unigol yn cael eu monitro gan y Bwrdd TGCh a Thrawsnewid Digidol, sy'n cwrdd bob chwe wythnos i adolygu cynnydd. Adroddir ar gynnydd wrth y Pwyllgor Craffu perthnasol hefyd. Mae'r strategaeth ddigidol yn cael ei monitro trwy adroddiadau chwarterol ar berfformiad i'r Cabinet a'r Adolygiad Blynyddol o Berfformiad y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth ddigidol yn cynnwys nodau tymor byr, canolig na hir, sy'n ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor fonitro cynnydd ac asesu effaith ei ddull strategol ar y cyfan.

26 Mae gan y Cyngor brosesau i werthuso effaith prosiectau digidol, ond nid yw'r gwaith hwn wastad yn cael ei gwblhau gan feysydd gwasanaeth. Fel rhan o ddatblygu achos busnes ar gyfer prosiectau digidol newydd, mae meysydd gwasanaeth yn gweithio gyda thîm digidol y Cyngor i adnabod cyfleoedd posibl ar gyfer arbedion a gwerth am arian. Unwaith y mae hyn wedi'i gwblhau, cyfrifoldeb y maes gwasanaeth perthnasol yw monitro a gwerthuso prosiectau digidol yn barhaus. Ond nid oes unrhyw wiriadau corfforaethol i sicrhau bod y gweithgarwch hwn yn digwydd, ac nid oes unrhyw ddadansoddiad ychwaith o ddata gwerthuso i ddeall effaith gweithgarwch digidol ar y cyfan.

27 Mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor wastad yn monitro i ganfod a yw arbedion wedi'u cynllunio'n cael eu cyflawni, gan leihau ei allu i ddeall a yw ei ddull strategol o ymdrin â digidol yn sicrhau gwerth am arian.

## Nid yw'r Cyngor wedi mynd ati'n llawn i gyfrifo cost ei strategaeth ddigidol nac ariannu gwaith i'w chyflawni

28 Nid yw'r Cyngor wedi adnabod cyllid ar gyfer yr holl weithgarwch sydd wedi'i gynnwys yn ei strategaeth ddigidol. Mae rhai prosiectau sydd wedi'u nodi yn y strategaeth yn cael eu cyllido, gan gynnwys datblygu platfform digidol i gwsmeriaid a chanolfan gyswllt ystwyth yn y cwmwl. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi mynd ati eto i gostio nac adnabod cyllid ar gyfer nifer o brosiectau, gan gynnwys:

- gosod band eang yn yr holl dai sy'n eiddo i'r Cyngor;
- cyflwyno dadansoddeg ragfynegol i ddeall y galw mewn gwasanaethau ar-lein yn y dyfodol; a
- datblygu platfformau rhannu data gyda phartneriaid iechyd.

29 Trwy beidio â mynd ati'n llawn i gostio ei strategaeth ddigidol a darparu adnoddau ar ei chyfer, ceir risg na fydd y Cyngor yn gallu cyflawni holl ystod y gweithgarwch sydd wedi'i gynnwys yn y strategaeth. Hefyd, trwy beidio ag adnabod cyllid ar gyfer y tymor canolig na hir, bydd hi'n anodd i'r Cyngor sicrhau gwerth am arian o fewn ei strategaeth ddigidol.

## Mae'r Cyngor wedi datblygu trefniadau i ddysgu o'i ddull o ymdrin â digidol ond nid yw'r rhain yn cael eu rhoi ar waith yn gyson

30 Mae diweddariad blynyddol ar y strategaeth ddigidol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu hefyd. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o weithgarwch ac asesiad o risg a materion cyllido ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

31 Dysgodd y Cyngor wersi o weithgarwch digidol blaenorol i oleuo’i strategaeth gyfredol, gan gynnwys o’r modd y gwnaeth addasu i effaith y pandemig.

32 Mae gan y Cyngor brosesau i werthuso effaith prosiectau digidol a gwblhawyd, ond nid yw’r gwaith hwn yn cael ei gwblhau’n gyson ac nid oes proses ffurfiol ar gyfer coladu a rhannu’r wybodaeth hon ar draws y Cyngor.

33 Trwy beidio ag adolygu effeithiolrwydd prosiectau digidol yn llawn ceir risg y bydd y Cyngor yn colli cyfleoedd i adnabod a rhannu ffyrdd o wella effaith a gwerth am arian ei ddull strategol.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r meini prawf archwilio

Isod, ceir y cwestiynau y ceisiom ni eu hateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i lunio ein canfyddiadau.

Y prif gwestiwn archwilio: **Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**

**Arddangosyn 2: cwestiynau archwilio a'r meini prawf archwilio**

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 1. A yw strategaeth ddigidol y Cyngor wedi'i goleuo gan ddealltwriaeth dda am dueddiadau yn awr ac yn y dyfodol? | 1.1 A oes dealltwriaeth drylwyr am yr 'hyn sydd ohoni' (h.y. y galw presennol/problemau y mae angen rhoi sylw iddynt) a'r rhesymau dros hynny/achosion sylfaenol? | • Mae'r Cyngor wedi defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr am yr 'hyn sydd ohoni' a sut y mae'n debygol o newid. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth (gan gynnwys data) sy'n ymwneud â:<br>– heriau o ran cynaliadwyedd/cadernid gwasanaethau a darparu adnoddau.<br>– anghenion dinasyddion a chymunedau.<br>– achosion sylfaenol y galw/problemau presennol y mae rhoi sylw iddynt.<br>– dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol a'u heffeithiau posibl, e.e. cymdeithasol, economaidd/gwleidyddol, amgylcheddol, diwylliannol neu dechnolegol. Gallent gynnwys tueddiadau hysbys e.e. poblogaeth sy'n heneiddio, adnoddau naturiol sy'n lleihau ac, yn enwedig, datblygiadau technolegol. Gallant gynnwys hefyd y rhai sydd â lefel uwch o ansicrwydd, e.e. y swyddi a'r sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol.<br>• Mae'r dadansoddiad o'r 'hyn sydd ohoni' a sut y mae'n debygol o newid wedi cael ei oleuo'n dda gan weithgarwch cynnwys, fel y bo'n briodol, sy'n |
| | 1.2 A oes dealltwriaeth drylwyr am effaith y ffactorau hirdymor, ac am yr heriau a'r cyfleoedd a allai ddeillio o hynny (e.e. risgiau a chyfleoedd)? | |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| | | adlewyrchu arfer da cydnabyddedig (e.e. Egwyddorion Cenedlaethol ar Gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, cyngor a chanllawiau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru).<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio ei sylfaen dystiolaeth yn effeithiol i:<br>– nodi'r camau yn ei ddull strategol o ymdrin â digidol sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol a pham, gan gynnwys sut y gallent fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau; a<br>– goleuo penderfyniadau ynghylch ei ddefnydd o dechnoleg ddigidol sy'n ceisio taro cydbwysedd rhwng yr angen i gyflawni amcanion tymor byr a'r angen i gyflawni rhai tymor hwy. |
| 2. A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae'n dymuno ei gyflawni trwy ddefnyddio technoleg ddigidol? | 2.1 A yw'r Cyngor yn cynllunio dros raddfa amser briodol? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried yr hyn y mae hirdymor yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull gweithredu digidol — h.y. pa mor bell ymlaen y gall/dylai gynllunio a pham (o leiaf ddeng mlynedd gan ystyried tueddiadau tymor hwy fel y bo'n briodol).<br>• Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall camau gweithredu gyflawni'r effaith orau dros y ffrâm amser honno o ran deilliannau a'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau. Gallai hyn gynnwys ystyried pwyntiau ymyrryd priodol sy'n gysylltiedig â diffiniad y Comisiynydd o atal. (Ceir rhagor o wybodaeth yn: Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebu — Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol).<br>• Mae'r Cyngor wedi gosod mesurau ar gyfer ei strategaeth ddigidol sy'n adlewyrchu effeithiau a gwerth am arian yn y byrdymor a'r hirdymor, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu'r cynnydd fel y bo'n briodol.<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi sut y darperir adnoddau ar gyfer ei strategaeth ddigidol dros y tymor hwy cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol (gweler hefyd y meini prawf sy'n ymwneud ag integreiddio). |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| | 2.2 A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai ei strategaeth ddigidol eu cael, gan gynnwys:<br>• sut y gallai gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol?<br>• sut y bydd ei chyflawni'n effeithio ar y pethau eraill y mae'n ceisio eu cyflawni (h.y. ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ehangach)?<br>• sut y bydd ei chyflawni'n effeithio ar yr hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni (h.y. eu hamcanion llesiant)? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall ei strategaeth ddigidol wneud cyfraniad ar draws y nodau llesiant.<br>• Mae staff sy'n datblygu'r strategaeth ddigidol yn deall yr hyn y mae cydweithwyr a phartneriaid yn ei wneud a sut y mae eu gwaith yn ymwneud â hynny, ac maent wedi ceisio integreiddio eu gwaith hwy gyda gwaith eu cydweithwyr o bob rhan o'r Cyngor a sefydliadau partner.<br>• Mae integreiddio'n amlwg yn aliniad y strategaeth ddigidol â strategaethau corfforaethol allweddol a chynlluniau gwasanaeth eraill. Er enghraifft y cynllun ariannol tymor canolig, cynllun y gweithlu, strategaethau rheoli asedau, y datganiad llesiant a chynlluniau lleihau carbon.<br>• Mae'r strategaeth ddigidol yn gyson â bwriadau strategol eraill, megis:<br>– profiad cwsmeriaid;<br>– rheoli'r galw/lleihau'r galw sy'n deillio o fethiant ac atal; a<br>– dylunio a gweithredu modelau darparu gwasanaethau newydd.<br>• Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn gyson â chynlluniau/strategaethau partneriaid lleol a chenedlaethol, gan gynnwys Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru a chynlluniau llesiant. |
| | 2.3 A oes dealltwriaeth eang a chyffredin am yr hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni? | • Mae gan gynghorwyr ac uwch swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth ddigidol ddealltwriaeth gyffredin a chlir am yr hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni a'r effaith fwriadedig ar ddarparu gwasanaethau.<br>• Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei chyfleu'n glir i staff a phartneriaid a allai helpu i'w chyflawni. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 3. A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol? | 3.1 A yw'r Cyngor wedi adnabod pwy y mae angen iddo eu cynnwys? | • Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am bwy y bydd y strategaeth ddigidol yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ac am bwy y mae angen iddo eu cynnwys.<br>• Mae'r Cyngor wedi mynd ati'n effeithiol i gynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, gan gynnwys o ffynonellau anhraddodiadol ac o'r rhai y gall fod wedi methu â'u cyrraedd yn flaenorol. |
| | 3.2 A yw'r Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i gynnwys amrywiaeth lawn y bobl yr effeithir arnynt gan ei strategaeth ddigidol? | • Mae'r Cyngor wedi darparu cyfleoedd gwirioneddol i bobl ddylanwadu ar ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol o adeg gynnar, gan gynnwys cynrychiolwyr grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.<br>• Mae'r Cyngor wedi defnyddio canlyniadau gweithgarwch cynnwys i ddylanwadu ar ddyluniad a chyflawni ei strategaeth ddigidol. |
| | 3.3 A yw'r Cyngor yn cydweithio'n effeithiol gyda'r partneriaid cywir? | • Mae'r Cyngor yn cydweithio i sicrhau ei fod yn cyflawni gwell deilliannau a gwerth am arian trwy ei strategaeth ddigidol ac mae wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i gefnogi hyn, er enghraifft ar gyfer:<br>– rhannu neu gyfuno arbenigedd ac adnoddau;<br>– rhannu gwybodaeth; a<br>– sicrhau monitro, gwerthuso ac atebolrwydd effeithiol, gan gynnwys ystyried gwerth am arian. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 4. A yw'r Cyngor wedi darparu adnoddau ar gyfer cyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddwyn manteision hirdymor/ataliol? | 4.1 A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau hirdymor o ran adnoddau? | • Mae'r Cyngor wedi asesu costau a manteision defnyddio technoleg ddigidol i fuddsoddi mewn dulliau hirdymor, ataliol, a chost (ariannol ac o ran deilliannau) peidio â gwneud hynny.<br>• Mae'r Cyngor wedi meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno i gyflawni ei strategaeth ddigidol dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes gyfan) a sut y gallai reoli risgiau/talu'r costau hynny gan gynnwys, er enghraifft, mentrau 'buddsoddi i arbed' arfaethedig a gostyngiadau a reolir mewn dyled dechnegol.<br>• Mae'r Cyngor wedi cyfrifo a nodi unrhyw arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud trwy weithredu ei strategaeth ddigidol. |
| | 4.2 A yw'r Cyngor yn dyrannu adnoddau er mwyn cyflawni deilliannau gwell dros yr hirdymor? | • Mae camau gweithredu (gan gynnwys camau ataliol) sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a/neu well defnydd o adnoddau dros y tymor hwy'n cael eu hybu a'u cefnogi, hyd yn oed:<br>– lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor; a<br>– lle y bo'r manteision yn debygol o gael eu cronni gan sefydliad arall neu eu priodoli i sefydliad arall. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 5. A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd? | 5.1 A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu'r cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a hwy? | • Mae'r Cyngor yn monitro costau a manteision cyflawni ei strategaeth ddigidol o safbwynt gwerth am arian.<br>• Mae'r Cyngor yn mesur y cyfraniad ehangach y mae'r strategaeth ddigidol yn ei wneud ar draws ei amcanion ei hun/amcanion partneriaethau.<br>• Mae'r cynnydd yn cael ei fesur yn erbyn amcanion tymor byr, canolig a hir. |
| 6. A yw'r Cyngor yn dysgu gwersi o'r ffordd y mae'n gweithio? | 6.1 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol? | • Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol yn rheolaidd, gan gynnwys:<br>– effeithiolrwydd ei weithgarwch cydweithredol;<br>– effeithiolrwydd ei weithgarwch cynnwys, gan gynnwys effaith y strategaeth ar ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol;<br>– effaith y strategaeth ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig; a<br>– darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y strategaeth ddigidol ar y cyfan o ran helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol.<br>• Mae'r Cyngor wedi adolygu gwersi a ddysgwyd o'i ymateb i'r pandemig ac mae'n cymhwyso'r gwersi hyn i'w strategaeth ddigidol. |
| | 6.2 A yw'r Cyngor yn rhannu gwersi a ddysgir o'i ddull o weithredu ei strategaeth ddigidol? | • Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgir o ddatblygu a chyflawni ei strategaeth ddigidol yn eang ar draws y sefydliad, a chyda phartneriaid lle y bo'n berthnasol. |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg